

# Hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol mewn teuluoedd i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol – dau ddull

Adroddiad dysgu: Crynodeb gweithredol

Ionawr 2022

Nod y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yw gwreiddio ei holl waith yn y dystiolaeth orau sydd ar gael. Ar gyfer ein holl gyrsiau a rhaglenni hyfforddiant, mae hyn yn dechrau gyda datblygiad yr hyfforddiant ac adolygwn y cynnwys yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ymchwil a'r ymarfer diweddaraf. Casglwn adborth yn rheolaidd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant, a ddefnyddir i fyfyrwyr a gwella'n barhaus. Pan fyddwn yn treialu neu beilota cwrs newydd, neu'n ei gynnal i grŵp newydd, byddwn weithiau'n casglu mwy o ddata a chyhoeddi adroddiad. Mae ein hadroddiad dysgu'n cynnwys adborth gan gyfranogwyr ac mae'r adroddiadau gwerthuso'n cyfuno mathau eraill o dystiolaeth, fel cyfweiliadau â rheolwyr y cyfranogwyr.

## Crynodeb gweithredol

Mae cryn dystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn aml yn brin o'r wybodaeth, sgiliau a'r hyder i adnabod ac ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol. Yn ôl gweithwyr cymdeithasol, nid ydynt yn derbyn dim neu fawr ddim mewnbyn ar hyn yn ystod eu hyfforddiant cyn-gymhwys.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, roedd y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CPRh) wedi treialu dau ddull gwahanol o ddarparu hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol mewn teuluoedd drwy'r Rhaglen Partneriaeth Addysgu Gwaith Cymdeithasol:

- cwrs undydd rhagarweiniol wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol blwyddyn olaf ar lefel israddedig neu Feistr, mewn wyth sefydliad addysg uwch mewn un Bartneriaeth Addysgu
- cwrs tridiau 'hyfforddi'r hyfforddwr' wedi'i ddylunio fel bod staff sefydliadau addysg uwch yn gallu cyflwyno'r cwrs undydd rhagarweiniol eu hunain i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r adroddiad dysgu hwn yn crynhoi canfyddiadau hunanwerthusiad y Ganolfan CPRh o ddarparu'r ddau gwrs ar-lein, ar sail arolygon adborth wedi eu cwblhau gan y cyfranogwyr.

Cafodd y cwrs undydd rhagarweiniol ei gyflwyno wyth gwaith rhwng Hydref 2020 ac Ebrill 2021, i gyfanswm o 418 o fyfyrwyr. Casglwyd adborth gan 191 o'r rhain gyda'r mwyafrif llethol (95%) yn dweud bod y cwrs wedi gwella eu gwybodaeth o wahanol agweddau ar gam-drin plant yn rhywiol – yn enwedig o ran yr heriau'n gysylltiedig â datgelu a phwysigrwydd defnyddio dull holistig o gynorthwyo plant a'u teuluoedd. Dywedodd y rhan fwyaf fod ganddynt hefyd fwy o hyder mewn adnabod cam-drin plant yn rhywiol, a gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Roedd y cwrs 'hyfforddi'r hyfforddwr' wedi'i gyflwyno dros gyfnod o dair wythnos ym mis Chwefror 2021 i 19 o staff sefydliadau addysg uwch, gyda naw yn rhoi adborth. Teimlai'r rhan fwyaf yn eithaf hyderus ar ddiwedd eu hyfforddiant y gallent ddarparu'r cwrs undydd rhagarweiniol i fyfyrwyr er i rai ddweud eu bod eisiau magu mwy o hyder drwy edrych eto ar yr adnoddau. Y teimlad oedd bod deunyddiau'r cwrs yn ddefnyddiol ac awgrymwyd adnoddau eraill hefyd (fel recordiad fideo o'r cwrs undydd); mae'r awgrymiadau hyn wedi eu hymgorffori yn y pecyn hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

Cafodd cyflwyniad y ddau gwrs eu canmol yn fawr iawn gyda'r ymatebwyr yn dweud bod yr hyfforddwyr yn wybodus a hawddgar. Soniodd rai am yr her o gymryd rhan mewn hyfforddiant ar-lein er bod eraill wedi nodi gwerth gwneud yr hyfforddiant o'r cartref, yn enwedig o gofio natur sensitif cynnwys yr hyfforddiant.

Y teimlad cyffredinol oedd bod y ddau ddull yn effeithiol er yn glir bod gweithredu'r naill ddull neu'r llall yn llwyddiannus yn dibynnu ar fewnbyn rhagweithiol gan y Bartneriaeth Addysgu.

### Tim Ymchwil a Gwerthuso

#### Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn

[www.csacentre.org.uk/training/learning-and-evaluation/](http://www.csacentre.org.uk/training/learning-and-evaluation/)

**Hoffem glywed gennych.** Os hoffech ddysgu mwy am ein hyfforddiant, ein llwyddiannau a'n dysgu hanesyddol, ein rhaglen newydd neu am ein pecynnau pwrpasol, e-bostiwch ni ar [info@csacentre.org.uk](mailto:info@csacentre.org.uk)